

# Adolygiad o Drefniadau Llywodraethu Presennol Cadw

Adolygiad annibynnol a gynhaliwyd
ar gais Gweinidogion Cymru.

Rhagfyr 2023



Castell Dolbadarn, Gwynedd.

# Cynnwys

| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 4 |
| Cefndir a chyd-destun | 6 |
| Methodoleg a dull | 8 |
| Rhagair i'r argymhellion | 10 |
| Argymhellion | 12 |
| Atodiadau | 24 |
| Geirfa termau a dolenni defnyddiol | 35 |

Llun y clawr blaen: Castell Conwy, Conwy.

Adran 1

# Cyflwyniad

**1.1** Mae gwaith Cadw o bwys mawr i Gymru. Mae'n gwarchod, yn sicrhau, yn diogelu ac yn cadw llawer o'r pethau sy'n ein gwneud ni pwy ydym ni. Yn bwysicaf oll, mae'n hyrwyddo dealltwriaeth y cyhoedd, a'u mwynhad, o amgylchedd hanesyddol Cymru, a mynediad ato. Mae Cadw yn darparu cyswllt hanfodol â'n cymynroddion diwylliannol, hanesyddol, ysbrydoledig ac esthetig, sydd yn ei dro yn meithrin ein chwilfrydedd, ein dychymyg a'n creadigrwydd. Mae Cadw wedi dangos bod amgylchedd hanesyddol a reolir ac a rennir yn hwyluso gwell lles cymdeithasol ac economaidd. Nid yw'n syndod felly bod Cadw yn Asiantaeth Fewnol o fewn Llywodraeth Cymru. Mae statws asiantaeth o'r fath yn golygu bod Cadw yn isadran o Lywodraeth Cymru ac yn atebol i weinidogion am weithredu a rheoli'r sefydliad ac am gyflawni ei swyddogaethau. Er bod modelau eraill yn bosibl ac y gellid eu harchwilio yn y dyfodol, ar hyn o bryd mae gan Cadw sale sy'n fuddiol o ran diogelu hanes a threftadaeth Cymru ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

**1.2** Mae Cadw yn ei amrywiol gyfathrebiadau yn datgan, 'Cadw — er lles pawb. For us all, to keep'. Mae Cadw i bob pwrpas yn wasanaeth amgylchedd hanesyddol o fewn Llywodraeth Cymru sy'n gweithio gyda ni i gyd i helpu i ofalu am dreftadaeth eithriadol Cymru.

**1.3** Mae Cadw yn fusnes pwysig i ymwelwyr ac mae ganddo gyfrifoldeb statudol dros warchod a darparu mynediad diogel i'r cyhoedd i'r 131 o safleoedd hanesyddol yng Nghymru sydd dan ei ofal. Yn ogystal, mae Cadw yn awdurdod rheoleiddio, sy'n gyfrifol am nodi adeiladau hanesyddol a henebion o bwysigrwydd cenedlaethol sydd angen eu gwarchod naill ai trwy restru neu gofrestru, a pharciau a gerddi hanesyddol drwy gofrestru. Mae Cadw yn goruchwylio'r drefn gydsynio ar gyfer rheoli newid sy'n effeithio ar y lleoedd hanesyddol hyn ac yn cefnogi Gweinidogion Cymru i ddatblygu polisi a deddfwriaeth i gefnogi amgylchedd hanesyddol Cymru.

**1.4** Yn 2022–23, roedd gan Cadw 252 o swyddi pobl (nid oedd pob un wedi'i llenwi), gan ddenu dros 1.1 miliwn o ymwelwyr i'w safleoedd â staff, ynghyd ag amcangyfrif pellach o 1 miliwn o ymwelwyr â'i safleoedd heb staff. Cynhyrchodd y sefydliad £9.64m o incwm o'i weithgareddau masnachol a rheolodd gyllideb gyfalaf o tua £10m ar gyfer cadwraeth hanfodol eiddo mewn gofal, gwella cyfleusterau ymwelwyr a grantiau cyfalaf i berchnogion eiddo hanesyddol. Derbyniodd gyllid gan Lywodraeth Cymru o tua £9m ar gyfer cymorth refeniw, gyda chyfanswm cyllideb o tua £28m, i gyd wedi'i amlygu yn y tabl (Atodiad 6.1) ac *Adroddiad Blynyddol Cadw 2022–23* (Atodiad 6.2). Nid yw ehangder a chymhlethdod gwaith Cadw i'w tanbrisio

**1.5** Ym mis Rhagfyr 2022, cyhoeddodd Dawn Bowden AS, Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth ('Y Dirprwy Weinidog'), sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen (GGG) i 'Ystyried trefniadau llywodraethu cyfredol Cadw a pha mor effeithiol ydynt ar gyfer ei weithredu a darpariaeth ehangach o wasanaethau treftadaeth gyhoeddus ar lefel genedlaethol ledled Cymru' (Atodiad 6.3). Mae'r term 'gwasanaethau treftadaeth gyhoeddus' yn cyfeirio, yn y cyd-destun hwn, at ddarparu gwasanaethau sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol. Dyma, mewn gwirionedd, yw'r briff ar gyfer yr adolygiad hwn.

**1.6** Gofynnwyd i mi sefydlu, arwain a chadeirio'r GGG ac adrodd yn ôl i'r Dirprwy Weinidog yn ddiweddarach yn 2023. Mae'n bwysig pwysleisio na chafodd yr adolygiad hwn ei sbarduno gan unrhyw bryderon sylweddol gan Lywodraeth Cymru nac unrhyw randdeiliad ynghylch Cadw, ac na chefais unrhyw dasg heblaw arwain yr adolygiad ar y briff a amlinellwyd uchod.

**1.7** Mae amserlennu'r adolygiad hwn yn seiliedig ar ymrwymiad a roddwyd yn 2017 pan sefydlwyd model llywodraethu presennol Cadw. Mae Cadw, fel llawer o sefydliadau, yn wynebu heriau sylweddol yn yr hinsawdd economaidd bresennol ac mae'r pwynt hwn, ochr yn ochr ag awydd ac uchelgais Cadw ar gyfer gwelliant parhaus, yn tanlinellu amseroldeb yr adolygiad hwn.

**1.8** Roeddwn i'n ffodus o gael Jane Richardson, Cadeirydd Bwrdd Cadw, ac Emma Plunkett-Dillon, cyn-Gyfarwyddwr Cynorthwyol Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru, ochr yn ochr â mi fel rhan o dîm cydlynu. Cawsom gymorth gan Gwilym Hughes, Pennaeth Cadw, a Christopher Jeynes, Rheolwr Uned Fusnes Cadw. Gyda'n gilydd, fe wnaethom nodi a ffurfio GGG; cytunodd y Dirprwy Weinidog ar eu penodiad ar 5 Ebrill 2023 a'i gyhoeddi mewn 'Datganiad Ysgrifenedig' (Atodiad 6.4).

**1.9** Roedd y GGG yn cynnwys arbenigwyr o bob rhan o'r DU yr oedd eu gwybodaeth a'u profiad yn berthnasol i'n briff, ynghyd â chynrychiolwyr staff Cadw a chynrychiolwyr undebau llafur (a restrir yn Atodiad 6.5).

**1.10** Mae'r ddogfen hon yn distyllu gwaith y GGG gyda gwybodaeth, barn a safbwynt yn cael eu casglu gan ystod eang o sefydliadau, unigolion ac, yn bwysicaf oll, staff ac aelodau Bwrdd Cadw. Mae'n ymdrech tîm annibynnol a diolchaf i'm holl gyd-weithwyr am eu gwaith caled, eu hymrwymiad a'u cyfeillgarwch yn ystod yr adolygiad hwn a phawb a fu'n helpu, cefnogi a chyfrannu at y gwaith hwn. Er mwyn annog astudiaeth ddilyniannol o'r ddogfen fer hon, nid oes crynodeb gweithredol.

**1.11** Rwyf wedi ceisio mynd i'r afael â'r adolygiad ar yr egwyddorion, y diffiniadau, yr amcanion a'r arddull a gynhwysir yn yr atodiadau amrywiol isod. Mae Atodiad 6.6 yn ddiffiniad awgrymedig o lywodraethu; mae Atodiad 6.7 yn nodi'r egwyddorion sy'n llywio ein hymagwedd a'n harddull at yr adolygiad; ac mae Atodiad 6.8 yn tynnu sylw at brif amcanion yr adolygiad. Cytunwyd ar yr egwyddorion, y diffiniadau a'r amcanion hyn cyn i'r GGG gynnal yr adolygiad gan y Dirprwy Weinidog, a chan y GGG.

**1.12** Yn ystod 2023 rwyf wedi cael y pleser a'r fraint o ymweld, ac mewn sawl achos, ailymweld â nifer o adeiladau, henebion a lleoedd hanesyddol yng ngofal Cadw ledled Cymru. Ymwelais â sawl safle hefyd, nad ydynt yng ngofal uniongyrchol Cadw, er eu bod yn cael eu gwarchod fel henebion cofrestredig ac wedi elwa o grantiau Cadw ar gyfer eu rheolaeth weithredol.

Roedd y croeso a gefais gan dîm Cadw, a'r angerdd, y mewnwelediad a'r wybodaeth a rannwyd yn ostyngedig ac yn ysbrydoledig. Gwahoddwyd staff Cadw i gymryd rhan mewn arolwg, a oedd yn ddadlennol — diolch o galon iddynt oll. Adolygodd cwmni allanol yr holl ymatebion a darperir crynodeb o'r canlyniadau yn Atodiad 6.12. Mae'n werth ailadrodd yma y datganiad a wnaethant ar ddechrau eu hadroddiad:

> **'Mae staff Cadw yn rhannu'r un angerdd am eu gwaith ym maes treftadaeth. Yn gyffredinol, maent yn parchu sgiliau ei gilydd ac yn mwynhau'r cyfeillgarwch. Mae'r rhai mewn rolau sy'n wynebu ymwelwyr yn mwynhau rhannu eu hangerdd ag ymwelwyr. Mae ymdeimlad o falchder wrth weithio i Cadw, gan wybod bod y swydd yn gwneud gwahaniaeth go iawn.'**

Rwy'n llwyr gefnogi'r datganiad hwnnw. Mae Cadw, heb os, yn sefydliad gwych, sy'n cyflawni'n uchel, sy'n dathlu ac yn atgyfnerthu hunaniaeth Gymreig, wedi'i staffio gan bobl ryfeddol, ac yn haeddiannol mae'n rhywbeth i ni i gyd ei drysori a bod yn falch ohono.

---

Roger Lewis
Cadeirydd, Adolygiad Llywodraethu Cadw, Rhagfyr 2023



Yn y llun mae Roger Lewis (chwith) a Gwilym Hughes, Pennaeth Cadw, yng Nghastell Caernarfon, Gwynedd.

Adran 2

# Cefndir a chyd-destun



**2.1** Ym mis Chwefror 2017, roedd adolygiad o sector treftadaeth Cymru, o'r enw *Cymru Hanesyddol: Ar drywydd Llwyddiant, Cadernid a Chynaliadwyedd ar gyfer Treftadaeth Cymru* (Atodiad 6.9) yn cynnwys cynnig y dylai Cadw ddod yn 'gorff elusennol neu'n asiantaeth weithredol y tu allan i Lywodraeth Cymru'. Mewn ymateb i'r cynnig hwn, comisiynodd y Gweinidog ar y pryd achos busnes i ystyried y gwahanol fodelau gweithredu posibl ar gyfer Cadw. Daeth *Ffrwd Waith Cymru Hanesyddol — Cadw: Achos Busnes dros Newid* ym mis Hydref 2017 (Atodiad 6.10) i'r casgliad bod y dadleuon o blaid ac yn erbyn Cadw o fewn y Llywodraeth yn gymharol gytbwys. Fodd bynnag, argymhellodd Cadw aros yn y Llywodraeth, ond gyda chyfres o welliannau busnes i'w alluogi i weithredu'n fwy effeithiol. Byddai hyn yn y bôn yn rhoi statws 'Asiantaeth Fewnol' i Cadw.

**2.2** Cafodd casgliadau'r asesiad hwn eu hystyried a'u cytuno gan Gabinet Llywodraeth Cymru ym mis Hydref 2017. Cytunwyd hefyd y byddai angen cyfnod o bum mlynedd er mwyn i'r trefniadau newydd gael eu sefydlu cyn y dylid cynnal adolygiad. Roedd y flwyddyn 2022 yn nodi pumed pen-blwydd y penderfyniad hwn ac ysgogodd y Dirprwy Weinidog i gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2022 ei bod yn bryd ystyried pa mor effeithiol oedd y gwelliannau busnes newydd o ran rhoi'r hyblygrwydd sydd ei angen ar Cadw wrth weithredu o fewn y Llywodraeth.

Uchod: Aelodau anweithredol Bwrdd Cadw. O'r chwith i'r dde: Gaynor Legall, Liz Girling, Jane Richardson, Steven Foulston a Peter Wakelin.

**2.3** Amcan *Ffrwd Waith Cymru Hanesyddol — Cadw: Achos Busnes dros Newid* oedd caniatáu cymaint o ryddid a hyblygrwydd â phosibl i Cadw ei alluogi i wireddu ei botensial masnachol yn llawn ac adeiladu ar ei gynnydd sylweddol yn nifer yr ymwelwyr a'i aelodaeth. Roedd yn ystyried ystod eang o opsiynau y gellid eu profi yn erbyn y status quo o gadw Cadw o fewn y Llywodraeth. Roedd yn cydnabod bod manteision posibl o symud y sefydliad i statws mwy hyd braich. Fodd bynnag, roedd hefyd yn derbyn bod Cadw wedi perfformio'n dda dros y blynyddoedd diwethaf wrth fod yn rhan o'r Llywodraeth a bod heriau ariannol, deddfwriaethol ac AD mawr i greu sefydliad hyd braich newydd. Roedd hefyd yn cydnabod bod rôl Cadw o gefnogi datblygu deddfwriaethol a pholisi mewn sefyllfa well o fewn y Llywodraeth.

**2.4** Argymhellodd *Ffrwd Waith Cymru Hanesyddol — Cadw: Achos Busnes dros Newid dros Newid* y dylai Cadw aros y tu mewn i Lywodraeth Cymru ond y dylid rhoi nifer o welliannau busnes ar waith i hwyluso cynllunio gwell a darparu mwy o hyblygrwydd ar recriwtio o fewn cyllidebau. Byddai'r gwelliannau hyn yn caniatáu i Cadw barhau i ddatblygu ei fusnes ymwelwyr a'i weithgareddau masnachol yn ogystal â chefnogi'r gwaith hanfodol o reoli a diogelu treftadaeth Cymru a chyflawni ei gyfrifoldebau deddfwriaethol a pholisi.

**Y prif welliannau busnes oedd:**

- Sefydlu bwrdd gweithredu mewnol ar gyfer Cadw, sy'n cynnwys gweision sifil o Lywodraeth Cymru, arbenigedd allanol a chynrychiolydd staff.
- Sefydlu system ffurfiol o ddirprwyo a rhyddid mewnol, gan gynnwys ar faterion ariannol, gweithredol, AD a chaffael. Byddai'r dirprwyaethau hyn yn galluogi Cadw i gael mwy o hyblygrwydd gweithredol gan barhau i weithredu'n effeithiol o fewn fframwaith rheoli mewnol Llywodraeth Cymru, a chydag atebolrwydd llawn i Weinidogion Cymru.
- Cyllideb dwy flynedd a ddirprwyir i Fwrdd Cadw gan Weinidogion Cymru ac wedi'i chlymu â chynllun busnes tair blynedd. Yn bwysig, byddai hyn yn rhoi hyblygrwydd ar recriwtio o fewn cyllidebau a gallai fod ynghlwm wrth strategaethau masnachol a chynhyrchu incwm.

**2.5** Cefnogwyd y casgliadau hyn gan Gabinet Llywodraeth Cymru ym mis Hydref 2017 a chytunwyd ar y rhyddid a restrir uchod wedi hynny gyda Phwyllgor Gwaith Llywodraeth Cymru. Ychwanegiad pwysig oedd penodi'r Cyfarwyddwr Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth ('rhiant-adran' Cadw) Swyddog Cyfrifo Ychwanegol (SCY) Cadw. Byddai'r ddirprwyaeth o benderfyniadau recriwtio penodol yn cael eu trosglwyddo i SCY Cadw ac roeddent yn gysylltiedig â thargedau incwm masnachol ac yn cael eu llywio gan gyngor a ddarperir gan Fwrdd Cadw. Yn y modd hwn, byddai'r Bwrdd yn rhoi sicrwydd i'r SCY ynghylch rheolaeth ariannol Cadw a chyflawni amcanion ei gynllun busnes.

**2.6** Cafodd pandemig Covid-19 ym mis Mawrth 2020 effaith fawr ar weithrediad Cadw a'r trefniadau newydd hyn. Cafodd yr henebion eu cau dros dro i'r cyhoedd ac ataliwyd yr holl waith cadwraeth, ac eithrio gwaith diogelwch hanfodol.

**2.7** Cafodd y trefniadau dirprwyo y cytunwyd arnynt eu hatal hefyd ac nid ydynt wedi'u hadfer eto. Fel y nodir isod, mae atal parhaus y dirprwyaethau hyn yn cael effaith negyddol barhaus ar effeithiolrwydd gweithredol Cadw.

**2.8** Sefydlwyd Bwrdd Cadw ddiwedd 2018 a chyfarfu am y tro cyntaf yn gynnar yn 2019. Gwnaethant barhau i gwrdd yn rhithwir drwy gydol y cyfnod Covid. Cwblhaodd aelodau'r Bwrdd eu tymor llawn cyntaf yn 2022. Mae rhai bellach wedi'u penodi i ail dymor, ac mae aelodau ychwanegol wedi cael eu recriwtio i ddod ag arbenigedd arbenigol pellach i mewn.

**2.9** Mae'r heriau ariannol sy'n wynebu Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus yng Nghymru wedi cynyddu'n fawr yn ystod yr adolygiad hwn ac mae'r GGG yn ymwybodol o'r pwysau ariannol ar Cadw. Mae'r GGG yn annog Cadw i barhau i gynllunio yn y tymor hir yn y cyfnod anoddaf hwn, yn barod i weithredu eu penderfyniadau ystyriol pan fydd y foment yn codi.

Adran 3

# Methodoleg a dull

**3.1** Cyfarfu'r Tîm Cydlynu'n rheolaidd drwy gydol y broses adolygu a gyda'i gilydd, fel y soniwyd, nododd GGG cymwys a gymeradwywyd gan y Dirprwy Weinidog. Gofynnwyd i'r GGG ddatgan unrhyw fuddiannau o wrthdaro posibl a chrëwyd cofrestr 'buddiannau'.

**3.2** Cyfarfu'r GGG yn 'rhithwir' ar 25 Ebrill 2023 a chytunodd ar ei ddull yn seiliedig ar nodyn briffio gan y Cadeirydd, a oedd yn amlinellu pwyntiau 6.5, 6.6 a 6.7 yn yr atodiadau atodedig isod.

**3.3** Cynhaliodd y GGG gyfweliadau un-i-un gydag ystod o arweinwyr o sefydliadau perthnasol, a chydag arbenigwyr a rhanddeiliaid o Gymru a thu hwnt (cawsant gyfraniadau ysgrifenedig hefyd). Bu'r GGG hefyd yn cyfweld â nifer o aelodau staff Cadw, adrannau a chyrff Bwrdd Cadw a Llywodraeth Cymru a Phenaethiaid Adrannau perthnasol. Mae pob un o'r rhai yr ymgynghorwyd â nhw wedi'u rhestru yn Atodiad 6.11.

**3.4** Gwahoddwyd staff Cadw i gymryd rhan mewn arolwg ar-lein (Atodiad 6.12).

**3.5** Cynhaliwyd gwaith y GGG rhwng mis Ebrill a mis Hydref 2023 a rhannwyd nodiadau ac allbynnau'r cyfarfodydd hyn gyda holl aelodau'r GGG drwy gronfa ddata ganolog.

**3.6** Adolygodd aelodau'r GGG hefyd nifer o ddogfennau perthnasol i Cadw a gyhoeddwyd dros y blynyddoedd diwethaf, a nodir rhai ohonynt yn yr Atodiad.

**3.7** Yn ystod y broses adolygu, rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariadau i'r Dirprwy Weinidog a'r Cyfarwyddwr Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth am gynnydd yr adolygiad.

**3.8** Aeth Cadeirydd yr adolygiad i gynhadledd staff Cadw ym mis Chwefror 2023 i gyflwyno'r adolygiad iddynt, ac aeth i gyfarfod wyneb yn wyneb â Bwrdd Cadw hefyd. Bu'n rhyngweithio â staff Cadw mewn amryw o safleoedd ledled Cymru lle roedd digon o gyfleoedd i gael sgyrsiau agored heb fod uwch aelodau o staff yn bresennol.

**3.9** Daw'r argymhellion o'r symiau helaeth o dystiolaeth ac arsylwadau gan aelodau'r GGG annibynnol. Cytunwyd ar y ddogfen hon gan y GGG cyn ei chyhoeddi.

Gwaelod-chwith: Gwnaeth Roger Lewis gwrdd ag un o Wardeniaid Henebion Maes cyntaf Cadw yng Nghastell Llangybi, Sir Fynwy, safle nad yw dan ofal Cadw ond sydd wedi elwa o grant gan Cadw yn 2022–23.

Gwaelod-dde: Roger Lewis gyda thîm Cadwraeth Cymru yn Hen Gastell y Bewpyr, Bro Morgannwg.







Datblygiad Porth y Brenin yng
Nghastell Caernarfon, Gwynedd.

Adran 4

# Rhagair i'r argymhellion

**4.1** Barn y GGG yw bod cenhadaeth a phwrpas Cadw, yn ddarostyngedig i'r pwyntiau a wnaed yn yr argymhellion, yn cael eu gwasanaethu orau drwy aros, ar hyn o bryd, fel Asiantaeth Fewnol Llywodraeth Cymru, gan gadw ei holl swyddogaethau a chyfrifoldebau o fewn un endid. Nid oedd y farn hon yn deillio o gais penodol i adolygu statws Cadw, ond o awydd i gymeradwyo'r safle a fabwysiadwyd yn 2017, ar yr amod bod y pwyntiau a wnaed yn argymhellion yr adolygiad hwn yn cael eu hystyried a'u gweithredu'n briodol mor llawn â phosibl.

**4.2** Dylid cydnabod gwaith yr Adran Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, (ADChaTh), gyda'i Chyfarwyddwr yn adrodd i'r Dirprwy Weinidog, am wneud gwaith rhagorol wrth gefnogi Cadw mewn sawl ffordd, yn enwedig trwy Covid, a helpu i fynd i'r afael â chyfrifoldebau Cadw o gynnal a chadw henebion. Mae'r synergeddau trawsadrannol a'r cyfleoedd i Cadw fod o fewn yr ADChaTh yn sylweddol. Ar ben hynny, mae perthynas unigryw Cadw â'r cyhoedd hefyd yn rhoi cyfleoedd i Lywodraeth Cymru ar gyfer math gwahanol o ymgysylltu â'r cyhoedd. O fewn Llywodraeth Cymru, mae gan Cadw gyfle i ddatblygu a llywio polisi a all fod o fudd i amgylchedd hanesyddol Cymru gyfan, megis amaethyddiaeth a defnydd tir, a chynllunio ac adfywio. Mae'n gallu cyd-fynd yn uniongyrchol â'r Brand Cymru/ Wales cenedlaethol, gyda'r potensial i helpu i lunio yn ogystal â thynnu arno.

**4.3** Mae tîm Cadw i'w longyfarch am gyflawni ei genhadaeth a'i bwrpas yn drawiadol ar draws ei holl feysydd cyfrifoldeb niferus ac amrywiol dros y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig yn ystod ac ar ôl y cyfnod Covid — gweler *Adroddiad Blynyddol Cadw 2022–23* (Atodiad 6.2).

**4.4** Mae safle Cadw fel Asiantaeth Fewnol Llywodraeth Cymru yn darparu'r sefydlogrwydd ariannol i alluogi Cadw i ymdopi â llawer o amgylchiadau annisgwyl a mynd i'r afael â'r heriau sylweddol sy'n wynebu llawer o sefydliadau heddiw. Mae sefydlogrwydd ariannol o'r fath hefyd yn caniatáu i Cadw ganolbwyntio ar flaenoriaethau'r *Rhaglen Lywodraethu* a chael mynediad at adnoddau ac arbenigedd o fewn y Llywodraeth nad ydynt yn fforddiadwy i'w cadw'n fewnol.

**4.5** Efallai nad yw'r manteision o fod o fewn y Llywodraeth yn cael eu teimlo'n gyfartal ar draws Cadw. Mae polisi, mewn amgylchedd sy'n cael ei ddominyddu gan bolisi, yn eistedd yn dda ac mae swyddogaethau rheoleiddiol yn perfformio'n dda. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd cyflawni gwaith cadwraeth Cadw yn fwy heriol yn yr amgylchedd hwn ac ystyrir bod darparu profiad masnachol i ymwelwyr yn anos fyth. Mae'n anochel bod cyfleoedd ar gyfer gwaith mwy arloesol yn y meysydd hyn yn heriol yn yr amgylchedd llywodraethu presennol.

**4.6** Teimlir bod gan Cadw, gyda chenhadaeth a phwrpas mor bwysig, y potensial i sicrhau mwy fyth o fanteision i Gymru a thu hwnt. Nid yw'r heriau o fewn y strwythur llywodraethu presennol yn ei atal rhag gweithredu ond maent yn ei atal rhag gwireddu'r holl gyfleoedd posibl ar gyfer twf.

**4.7** Mae Adroddiad 2017 — *Ffrwd Waith Cymru Hanesyddol — Cadw: Achos Busnes dros Newid* (Atodiad 6.10) — yn cydnabod yr un potensial o ran twf a chyflwyno cyfres o argymhellion a gynlluniwyd i yrru'r newid sydd ei angen i wireddu'r potensial hwn. Heb os, gwnaeth Covid darfu'n ddifrifol ar y rhaglen newid ac nid yw argymhellion adroddiad 2017 wedi cael eu gweithredu'n llawn. Mae cyfle nawr i ailosod y rhaglen am newid.

**4.8** Ni ddylid tanbrisio'r awydd a'r gydnabyddiaeth am newid gan y mwyafrif o'r rhai sy'n ymwneud â'r adolygiad. Dylid ystyried angerdd y sylwadau, y farn a'r safbwyntiau mewn ffordd gadarnhaol iawn gan eu bod yn cael eu hysgogi gan y gwaith gwych y mae Cadw eisoes wedi'i gyflawni ac y bydd Cadw yn parhau i'w wneud er budd cenedlaethau'r dyfodol.

Mae cyflawni gwaith cadwraeth a phrofiad ymwelwyr masnachol yn ddau faes sy'n dod â heriau i safle Cadw o fewn y Llywodraeth.

Isod: Un o seiri maen Cadw wrth ei waith.
Gwaelod: Y gofod manwerthu yng Nghastell Caernarfon, Gwynedd.

**4.9** Wrth wraidd adolygiad 2023, mae'r GGG yn argymell y prif gamau canlynol sydd â'r potensial i wella perfformiad Cadw. Mae'r camau gweithredu wedi'u strwythuro o amgylch y themâu canlynol:

**Thema A —** Creu mwy o ystwythder, hyblygrwydd a deinameg i Cadw drwy ddychwelyd awdurdodau dirprwyedig cytunedig i Uwch Dîm Gweithredol Cadw, gan barhau fel Asiantaeth Fewnol Llywodraeth Cymru.

**Thema B —** Egluro rôl Bwrdd Cadw ac i'r Bwrdd ddatblygu perthynas agosach ac uniongyrchol â'r Dirprwy Weinidog ochr yn ochr â Chyfarwyddwr yr ADChaTh, neu gyda'r gweinidog a'r adran sy'n gyfrifol am Cadw yn y dyfodol. (Noder, rydym yn argymell bod Cadw yn aros o fewn yr ADChaTh.)

**Thema C —** Canolbwyntio ar bobl ac addasu prosesau a gweithdrefnau Llywodraeth Cymru lle maent yn ymwneud â Cadw, yn enwedig o ran Adnoddau Dynol, caffael a recriwtio, hyrwyddo a chadw staff. Sicrhau bod y prosesau a'r gweithdrefnau yn briodol i'r gwaith, sgil y staff a'r materion a'r heriau penodol sy'n wynebu Cadw. Yn bwysicaf oll, sicrhau bod camau gweithredu yn cael eu cyflawni mewn modd amserol.

**Thema D —** Atgyfnerthu partneriaethau sy'n cefnogi rôl Cadw yn y sector a gwasanaethau treftadaeth ehangach trwy berthnasoedd agosach â sefydliadau diwylliannol, creadigol, hanesyddol ac ymwelwyr ledled Cymru a'r DU.

**Thema E —** Gwella rhai o weithgareddau eang Cadw i gynorthwyo ei ddiben craidd, gan gynnwys adeiladu ar waith masnachol Cadw fel atyniad a menter fasnachol sylweddol i ymwelwyr, a'i rôl fel ceidwad a hyrwyddwr treftadaeth hanesyddol Cymru.

**Thema F —** Cefnogi Cadw i fod i bawb a chofleidio Cymru fodern drwy ei waith a'i arferion.

**4.10** Bydd yr amserlen ar gyfer gweithredu'r argymhellion, sydd i'w cymeradwyo gan y Dirprwy Weinidog, yn gofyn am gynllunio ac amserlennu gofalus a gwaith pellach mewn rhai meysydd. Nid yw'r rhestr ganlynol mewn trefn gronolegol ar gyfer gweithredu, ond awgrymir bod y deg argymhelliad canlynol o flaenoriaeth uchel: 5.1; 5.2; 5.3; 5.4; 5.7; 5.8; 5.10; 5.11; 5.12; a 5.18.

**4.11** Mae wyth o'r argymhellion (5.13; 5.14; 5.15; 5.16; 5.20; 5.24; 5.28 a 5.29) yn cael eu hystyried yn rhai nad ydynt yn ymwneud â llywodraethu yn uniongyrchol ond maent wedi cael eu nodi a'u cadw'n glir gan ei bod yn bwysig eu dal yn yr adolygiad hwn. Mae'r diffiniad o lywodraethu yn Atodiad 6.6 yn ddigon eang i fynd i'r afael â phryderon o'r fath.





Adran 5

# Yr argymhellion

**Thema A —** Creu mwy o ystwythder, hyblygrwydd a deinameg i Cadw drwy ddychwelyd awdurdodau dirprwyedig cytunedig i Uwch Dîm Gweithredol Cadw, gan barhau i fod yn Asiantaeth Fewnol Llywodraeth Cymru.

### 5.1 Argymhelliad 1

Dylai Bwrdd Cadw, Pennaeth Cadw a Chyfarwyddwr yr ADChaTh gwrdd i ystyried argymhellion a goblygiadau'r adolygiad hwn. Dylent gytuno ar amserlen ar gyfer eu gweithredu, nodi pwy sy'n gyfrifol am weithredu pob cam, a chynnig dull gweithredu i'r Dirprwy Weinidog. Yn dilyn yr adolygiad hwn ac adborth gan y Dirprwy Weinidog. byddai'r GGG yn croesawu nodyn byr ar yr hyn a gytunwyd.

Fel rhan o'r broses hon, dylid ystyried adroddiad 2017, *Ffrwd Waith Cymru Hanesyddol — Cadw: Achos Busnes dros Newid* (Atodiad 6.10) ochr yn ochr â'r adolygiad hwn gan ei fod yn cynnwys nifer o bwyntiau sy'n ysgogi'r meddwl sy'n deilwng o'u hystyried yn y dyfodol, ond yn ystyriol o'r hinsawdd economaidd bresennol.

Dylid cytuno ar gyllideb benodol o ran y staff ychwanegol a'r cyllid sydd ei angen i fwrw ymlaen ag argymhellion yr adolygiad hwn. Bydd angen i hyn fod yn ychwanegol at y gyllideb bresennol sy'n ofynnol i Cadw gyflawni ei swyddogaethau craidd niferus a'i gynllun busnes cytunedig, wrth ystyried y pwysau ar y pwrs cyhoeddus.

### 5.2 Argymhelliad 2

Dylid adfer rôl yr SCY ar gyfer Cadw, a gafodd ei atal yn gynnar yn ystod Covid, gan gynnwys dirprwyo penderfyniadau staffio a recriwtio priodol sy'n gysylltiedig â thargedau incwm masnachol a'u llywio gan gyngor a goruchwyliaeth gan Fwrdd Cadw.

Teimlir y dylai'r rôl hon gael ei dal yn uniongyrchol gan Bennaeth Cadw sydd â chyfrifoldeb gweithredol o ddydd i ddydd ac yn y bôn yn cyflawni'r rôl uwch weithredol. I adlewyrchu hyn, dylid ystyried teitl y Prif Weithredwr yn hytrach na Phennaeth Cadw, fel yn y gorffennol diweddar.

Dylai Pennaeth Cadw/Prif Weithredwr barhau i adrodd i Gyfarwyddwr yr ADChaTh i gadw'r synergeddau a'r berthynas waith agos gyda'r ADChaTh ehangach. Byddai'r trefniant hwn yn hwyluso'r ddirprwyaeth o lefelau awdurdodau ariannol, staffio, caffael a recriwtio priodol, sylweddol ac wedi'u diffinio'n glir i Bennaeth Cadw er mwyn galluogi mwy o ystwythder, hyblygrwydd, gwneud penderfyniadau symlach a chyflymder cyflwyno ar gyfer Uwch Dîm Gweithredol (UDG) Cadw.

Yn ogystal ag adrodd i Gyfarwyddwr yr ADChaTh, dylid craffu a herio Pennaeth Cadw ar lefel strategol briodol gan Fwrdd Cadw. Bydd yr argymhelliad hwn yn gofyn am gyngor ac arweiniad arbenigol gan swyddogion Llywodraeth Cymru i sicrhau y gellir ei weithredu'n effeithiol.

### 5.3 Argymhelliad 3

Dylai Bwrdd Cadw, UDG Cadw a Chyfarwyddwr yr ADChaTh gyfarfod â thîm llywodraethu priodol Llywodraeth Cymru a gofyn am ailedrych ar *Ddogfen Fframwaith Asiantaeth Fewnol Cadw*, 2017. Dylent greu dogfen newydd sy'n diffinio'n glir y berthynas gydweithredol newydd arfaethedig rhwng Bwrdd Cadw, UDG Cadw a'r ADChaTh. (Mae enghreifftiau o ddogfennau defnyddiol yn bodoli o fewn Llywodraeth Cymru megis y trefniadau recriwtio dirprwyedig ar gyfer Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru.)

Dylai'r ddogfen newydd amlinellu'n glir y prosesau, cyfrifoldebau a lefelau awdurdodau gwneud penderfyniadau mewn perthynas â'r Bwrdd, SCY Cadw, UDG Cadw a swyddogion a gweinidogion Llywodraeth Cymru. Mae angen a budd sylweddol i ddirprwyo'n glir i Cadw sawl maes a amlinellir yn yr argymhellion hyn a fydd yn galluogi Cadw i fod yn sefydliad mwy hyblyg ac ystwyth.



Llys Rhosyr yn Ynys Môn, llys brenhinol tywysogion Gwynedd, oedd heneb rhif 131 i ddod o dan ofal Cadw yn 2023.

**Thema B —** Egluro rôl Bwrdd Cadw ac i'r Bwrdd ddatblygu perthynas agosach ac uniongyrchol â'r Dirprwy Weinidog ochr yn ochr â Chyfarwyddwr yr ADChaTh, neu gyda'r gweinidog a'r adran sy'n gyfrifol am Cadw yn y dyfodol.

### 5.4 Argymhelliad 4

Dylai Bwrdd Cadw (a gynrychiolir gan Gadeirydd Cadw), Cyfarwyddwr yr ADChaTh a Phennaeth Cadw gwrdd ddwywaith y flwyddyn gyda'r Dirprwy Weinidog, yn debyg i'r broses a fabwysiadwyd gan gyrff hyd braich Llywodraeth Cymru. Dylent drafod ac adolygu blaenoriaethau Cadw, ochr yn ochr â'r cynllun busnes blynyddol y cytunwyd arno, a thynnu sylw at unrhyw bwyntiau a phryderon sydd gan y Bwrdd. Dylai'r broses hon gael ei chynnwys yn y *Ddogfen Fframwaith Asiantaeth Fewnol Cadw* newydd.

### 5.5 Argymhelliad 5

Dylai Bwrdd Cadw gynnal Adolygiad/Ailddatganiad o Effeithiolrwydd Bwrdd Cadw yng ngoleuni'r adolygiad llywodraethu hwn. Dylai hyn gael ei arwain gan hwylusydd annibynnol i sicrhau bod sgiliau, profiadau, arferion a gweithdrefnau'r Bwrdd yn adlewyrchu'r gwaith sy'n ofynnol ohono, ac mae ei aelodaeth yn cynrychioli Cymru fodern ac amrywiol. Dylai Cyfarwyddwr yr ADChaTh arwain ar graffu ar y gwaith hwn a dylid adlewyrchu canlyniadau'r ymarfer hwn yn y *Ddogfen Fframwaith Asiantaeth Fewnol Cadw.*

Dylid datblygu cynllun olyniaeth Bwrdd a dylai'r ymarfer hwn fod yn dreigl i ystyried unrhyw newidiadau annisgwyl i'r Bwrdd. Mae Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus (a elwir hefyd yn Egwyddorion Nolan) wrth wraidd ymarfer y Bwrdd: anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, didwylledd, gonestrwydd ac arweinyddiaeth.

### 5.6 Argymhelliad 6

Dylai Bwrdd Cadw enwebu un o'i aelodau i fod yn Uwch Is-gadeirydd Annibynnol fel gwarchodwr, a all, os oes angen, weithredu fel cyfle rhwng y Cadeirydd, y Bwrdd a'r Prif Weithredwr os bydd unrhyw bryderon anghyson ynghylch llywodraethu'r Bwrdd yn codi.

Yn ystod yr adolygiad hwn, ymddiswyddodd Cadeirydd Cadw, a oedd hefyd yn aelod o'r Tîm Cydlynu a'r GGG, i ymgymryd â phenodiad cyhoeddus newydd. Dylid ystyried penodi Cadeirydd Cadw newydd yng nghyd-destun argymhellion yr adolygiad.

### 5.7 Argymhelliad 7

Dylid adolygu rôl Bwrdd Cadw ac o bosibl ei mireinio. Gallai Bwrdd Cadw, gyda'i arbenigedd a'i fewnwelediad, ymgymryd â rôl fwy strategol yn ogystal â chynghori, gan weithio gyda Chyfarwyddwr yr ADChaTh ac UDG Cadw i herio, craffu a chefnogi, yn gyfartal, pob agwedd ar strategaeth Cadw yng nghyd-destun y *Ddogfen Fframwaith Asiantaeth Fewnol Cadw* ddiwygiedig arfaethedig.

Dylai'r rôl newydd a argymhellir ar gyfer y Bwrdd gynnwys:

- Cyfleoedd i'r Bwrdd wneud argymhellion i Weinidogion Cymru, mewn partneriaeth ag UDG Cadw.
- Helpu i lunio pob agwedd ar strategaeth Cadw, gan gynnwys rôl arweinyddiaeth strategol ehangach Cadw o fewn y sector amgylchedd hanesyddol, o fewn paramedrau y cytunwyd arnynt.
- Sicrhau bod Cyfarwyddwr yr ADChaTh a'r Dirprwy Weinidog yn cael eu hysbysu am yr holl faterion sy'n effeithio ar allu Cadw i gyflawni ei ddiben orau.






Uchod: Ymwelydd ifanc yn gwneud y mwyaf o'r profiad Realiti Estynedig yng Nghastell Rhaglan, Sir Fynwy.

Gwaelod: Cyfres o adnoddau Cymraeg a gynhyrchwyd gan Cadw sy'n galluogi dysgwyr Cymraeg i ymarfer eu sgiliau yn safleoedd Cadw.



Mae gwisgoedd hanesyddol dilys yn cael eu gwneud gan wirfoddolwyr yn Nhŷ Tref Plas Mawr yng Nghonwy.

**Thema C —** Canolbwyntio ar bobl ac addasu prosesau a gweithdrefnau Llywodraeth Cymru lle maent yn ymwneud â Cadw, yn enwedig o ran Adnoddau Dynol, caffael a recriwtio, hyrwyddo a chadw staff. Sicrhau bod y prosesau a'r gweithdrefnau yn briodol i'r gwaith, sgil y staff a'r materion a'r heriau penodol sy'n wynebu Cadw. Yn bwysicaf oll, sicrhau bod camau gweithredu yn cael eu cyflawni mewn modd amserol.

### 5.8 Argymhelliad 8

Dylai Bwrdd Cadw, Pennaeth Cadw ac UDG Cadw gyflwyno cais i Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol Llywodraeth Cymru fod person AD strategol uwch yn cael ei secondio i'w cefnogi a'u cynghori ar y prosesau AD amrywiol a'r newidiadau gweithdrefnol cysylltiedig ag AD a staff cysylltiedig yr argymhellir eu bod yn galluogi sefydliad mwy deinamig, sy'n wynebu'r cyhoedd, yn fasnachol weithredol ac yn seiliedig ar sgiliau arbenigol i weithredu'n fwy effeithlon ac effeithiol.

### 5.9 Argymhelliad 9

Dylid cynnal asesiad o sut y gellid addasu prosesau recriwtio a hyrwyddo presennol Llywodraeth Cymru yn well i weddu i anghenion Cadw, gan roi cydnabyddiaeth briodol i egwyddorion cydraddoldeb a phroses deg. Mae'r trefniadau Adnoddau Dynol sydd ar waith ar hyn o bryd ar gyfer arolygiaethau Llywodraeth Cymru yn darparu templed profi y gellid ei addasu ar gyfer Cadw.

### 5.10 Argymhelliad 10

Yn benodol, dylid rhoi awdurdod dirprwyedig i Cadw recriwtio, penodi, hyrwyddo a chadw staff, o fewn cyllidebau y cytunwyd arnynt a phrotocolau Adnoddau Dynol. Mae gan staff Cadw setiau a chyfrifoldebau anarferol iawn yng nghyd-destun Llywodraeth Cymru, gan gynnwys eu cylch gwaith masnachol a chadwraeth a gwaith gweithredol amrywiol.

Mae'r materion sy'n ymwneud â recriwtio, hyrwyddo a chadw staff Cadw, yn ogystal â'r gallu i benodi yswiriant brys, yn gofyn am sylw arbennig. Dylid rhoi awdurdod dirprwyedig i Cadw logi yswiriant brys, o fewn cyllidebau y cytunwyd arnynt a phrotocolau Adnoddau Dynol.

### 5.11 Argymhelliad 11

Dylid ailsefydlu'r dirprwyaethau recriwtio y manylir arnynt yn y *Ddogfen Fframwaith Asiantaeth Fewnol Cadw*, 2017 ar y cyd ag argymhelliad 2.

### 5.12 Argymhelliad 12

Dylai UDG Cadw, gydag AD a chyngor cyfreithiol arbenigol y Llywodraeth, archwilio model 'eithrio mewnol' ar gyfer Cadwraeth Cymru. Tîm Eiddo mewn Gofal Cadw (y mae Cadwraeth Cymru yn rhan ohono) yw'r tîm cadwraeth mewnol sy'n darparu gwasanaethau arbenigol i safonau union. Weithiau mae eu gwaith yn cael ei ategu gan gontractwyr treftadaeth allanol arbenigol.

Mae'r staff o fewn Cadwraeth yn grefftwyr ymarferol, technegol nad oes ganddynt lawer iawn yn gyffredin â ffyrdd y gwasanaeth sifil ehangach o weithio. Mae'n ddigon posibl y bydd cyfle i Cadwraeth, gydag adnoddau priodol, ymgymryd â gwaith ar gyfer sefydliadau eraill, a allai gynhyrchu incwm ac, yn ei dro, annog recriwtio a chadw staff a galluogi gwaith cadwraeth critigol i gael ei gyflawni mewn modd amserolach. Gallai hyn hefyd helpu recriwtio prentisiaid a chefnogi'r agenda sgiliau treftadaeth.

Gellid ystyried y model 'eithrio mewnol' ar gyfer agweddau eraill ar rolau gweithredol Cadw, megis ei weithgareddau masnachol, sy'n cynnwys gweinyddu arlwyo ac aelodaeth, a wneir ar hyn o bryd gan gontractwyr trydydd parti.



Cyferbyn: Mae staff Cadwraeth Cymru, tîm cadwraeth mewnol Cadw, yn grefftwyr technegol ymarferol ac yn cynnwys seiri dodrefn a seiri maen.




Ceidwad yn Llys a Chastell Tretŵr, Powys, yn dangos offer taith sain i ymwelydd.

**Ddim yn gysylltiedig yn uniongyrchol â llywodraethiant**

### 5.13 Argymhelliad 13

Dylai Pennaeth Cadw, UDG Cadw, Undeb Llafur Cadw a chynrychiolwyr staff, gyda chymorth arbenigedd Adnoddau Dynol, ddefnyddio'r cyfle y mae'r adolygiad hwn yn ei roi i sicrhau bod Cadw yn cael ei staffio'n briodol ar y lefelau a'r graddau priodol gyda'r sgiliau perthnasol i gyflawni ei genhadaeth a'i bwrpas. Dylid cynnal gwerthusiad o system/llwybrau graddio Llywodraeth Cymru o ran ei bod yn addas i anghenion Cadw. Dylid ystyried strwythur graddio pwrpasol sy'n adlewyrchu'r rolau gweithredol unigryw o fewn Cadw, fel ceidwaid a seiri maen, os yw rheolau'r gwasanaeth sifil yn caniatáu.

Dylai'r adolygiad hwn o staffio sicrhau bod gan holl wahanol ganghennau Cadw yr adnodd cytbwys priodol i allu cael amser i fod yn strategol, yn ogystal â gweithredol, yn enwedig ym meysydd amgylchedd hanesyddol Cadw. Dylai unrhyw newidiadau arfaethedig fynd at Fwrdd Cadw i gael her, craffu a chymorth, cyn cael eu cyflwyno'n fewnol i Gyfarwyddwr yr ADChaTh i gael camau gweithredu y cytunwyd arnynt.

Argymhellir hefyd y dylid creu rôl Pennaeth Adnoddau Dynol / Partner Busnes AD a gydnabyddir yn benodol o fewn strwythur UDG Cadw o ystyried nifer y bobl mae Cadw yn eu cyflogi.

### 5.14 Argymhelliad 14

Dylai UDG Cadw archwilio, gyda chyrff treftadaeth Cymreig eraill o'r un anian, gyrff addysg bellach a'r sector preifat, y posibilrwydd o sefydlu 'Ysgol Dreftadaeth a Sgiliau Cadwraeth Cymru a Rhagoriaeth Crefft' mewn partneriaeth â sefydliad addysgol yng Nghymru, gyda'r gallu i ddyfarnu cymwysterau cydnabyddedig. Awgrymir canolbwyntio'n benodol ar ddefnyddio deunydd traddodiadol a charbon isel.

Gallai'r fenter arloesol hon greu'r genhedlaeth nesaf o grefftwyr treftadaeth arbenigol. Bydd angen rheoli'r agweddau niferus ac amrywiol o ran llywodraethu menter o'r fath yn ofalus.

### 5.15 Argymhelliad 15

Dylai UDG Cadw, gyda chyngor arbenigol ac mewn partneriaeth â'r sector treftadaeth ac addysg uwch ehangach, ddatblygu a gweithredu cynllun prentisiaethau effeithiol, wedi'i ariannu ac yn hyfyw, ond nid dim ond yn benodol, i seiri maen — ar y cyd ag argymhelliad 14.

O dan y model hwn, rhaid i rolau prentisiaid fod yn atodol (h.y. mwy na chyfrif pen craidd), yn amodol ar recriwtio agored, cystadleuol, wedi'u halinio â safonau cymhwyster prentisiaid ac wedi'u cynllunio i fodloni gofynion prinder sgiliau yn y sector.

### 5.16 Argymhelliad 16

Dylid symleiddio'r system fetio gyfredol ar gyfer gwirfoddolwyr i gynorthwyo recriwtio a chadw gwirfoddolwyr, gan gofio am y fframwaith rheoleiddio angenrheidiol sydd ei angen. Mae Cadw wedi cymryd camau breision wrth ddatblygu ei gynnig i wirfoddolwyr yn ystod y blynyddoedd diwethaf a dylid defnyddio adnoddau ychwanegol i ddatblygu a thyfu cynnig gwirfoddolwyr Cadw ar draws holl safleoedd Cadw gyda pherson priodol o fewn Cadw yn benodol gyfrifol am wirfoddolwyr.

Mae'r materion penodol yn ymwneud ag Adnoddau Dynol ar gyfer gwirfoddolwyr Cadw angen sylw ac thrafodaeth ofalus rhwng AD Llywodraeth Cymru a UDG Cadw. Mae gan y cyfle i ddatblygu perthynas newydd â gwirfoddolwyr ledled Cymru fanteision sylweddol i bawb. Dylid chwilio am brofiadau a dysgu gan sefydliadau eraill, megis Comisiwn Beddau Rhyfel y Gymanwlad sy'n rhedeg cynllun gwirfoddoli ar gyfer cynnal a chadw beddau rhyfel. Gallai'r berthynas â gwirfoddolwyr fod yn gymhleth yng nghyd-destun llywodraethu Cadw/Llywodraeth Cymru.



Cyferbyn: Gwirfoddolwr yn siarad ag ymwelydd yng Nghastell Coch, Caerdydd.

### 5.17 Argymhelliad 17

Dylai Partneriaeth Cymru Hanesyddol — yn cynnwys Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru (CBHC), Amgueddfa Cymru a Cadw — gael ei hailsefydlu i annog cydweithio hyd yn oed yn agosach, rhannu gwybodaeth ac arbenigedd mewn meysydd o ddiddordeb cyffredin, ac i archwilio hyd yn oed mwy o synergeddau rhwng cyrff diwylliant a threftadaeth cenedlaethol a ariennir yng Nghymru.

Teimlir bod cyfleoedd pellach i’r sefydliadau cenedlaethol weithio’n agosach gyda’i gilydd a chydweithio ar lefel leol, yn enwedig lle mae ganddynt yr un diddordeb mewn ymgysylltu â lleoedd penodol ac annog cyfranogiad cymunedau lleol yn eu treftadaeth.

Mae’r GGG yn credu bod y cyfleoedd posibl o amgylch dull ‘tîm’ go iawn yn sylweddol a bod Cadw mewn sefyllfa dda i arwain yma. Dyma farn a rennir gan fwyafrif aelodau Partneriaeth Cymru Hanesyddol.

Argymhellir hefyd y dylid gwahodd Croeso Cymru i fynychu’r cyfarfod hwn. Teimlwyd hefyd y gallai defnyddio’r bartneriaeth hon i wella’r berthynas bresennol gyda Cymru Greadigol a Chyngor Celfyddydau Cymru fod â manteision i bawb dan sylw.

Cyfarwyddwr yr ADChaTh sydd yn y sefyllfa orau i gadeirio’r Bartneriaeth hon. Efallai y bydd priod Gadeiryddion y pedwar corff cenedlaethol yn dymuno cyfarfod yn rheolaidd i rannu eu profiadau ac adrodd yn ôl i’w byrddau a’u gweithrediaeth eu hunain.

### 5.18 Argymhelliad 18

Dylid cynnal adolygiad o’r berthynas rhwng Cadw a CBHC, os yw’n dderbyniol i bob parti, gan y ddau sefydliad sy’n gweithio gyda’i gilydd. Tua wyth i naw mlynedd yn ôl, archwiliodd y ddau sefydliad synergeddau posibl o weithio’n agosach. Ers hynny, fel y gwelir yn yr adolygiad hwn, mae’r cyd-destun strategol wedi newid a byddai’n amserol i’r ddau sefydliad archwilio opsiynau ar gyfer datblygu’r synergeddau posibl sy’n bodoli rhyngddynt wrth gyflawni eu cyfrifoldebau a’u rhwymedigaethau a rennir i warchod, cofnodi a gwella dealltwriaeth y cyhoedd o’r amgylchedd hanesyddol.

### 5.19 Argymhelliad 19



Mae’r 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru yn allweddol i reoli’r amgylchedd hanesyddol yn gynaliadwy. Mae gan Cadw berthynas uniongyrchol ac, mewn rhai achosion, agos gyda nhw. Dylid sefydlu proses strwythuredig newydd ar gyfer ymgysylltu’n rheolaidd â’r Awdurdodau, o bosibl drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), mewn meysydd fel ymchwil, allgymorth ac addysg gyhoeddus. Gallai Cadw hefyd ailedrych ar ei bwerau dirprwyo, yn enwedig mewn meysydd fel caniatâd adeiladau rhestredig, a fydd yn rhesymoli adnoddau. Dylai perthynas newydd o’r fath ddod â manteision sylweddol i bawb.

**Ddim yn gysylltiedig yn uniongyrchol â llywodraethiant**

### 5.20 Argymhelliad 20

Dylai Partneriaeth Cymru Hanesyddol ddatblygu strategaeth dwristiaeth ddiwylliannol benodol ar gyfer Cymru ar y cyd. Dylid trafod ac archwilio’r argymhelliad hwn gyda Croeso Cymru ac asiantaethau a sefydliadau cysylltiedig eraill, gan gynnwys Cyngor Celfyddydau Cymru a Cymru Greadigol, i ystyried sut rydym yn croesawu mwy o ymwelwyr i Gymru sy’n cael eu denu atom gan ein cynigion diwylliannol niferus ac amrywiol.

Gallai a dylai strategaeth o’r fath groesawu llawer o sefydliadau diwylliannol eraill ledled Cymru. Er mwyn cymell a gwobrwyo syniadau gwych sy’n sicrhau canlyniadau gwych, efallai y bydd yr ADChaTh am ystyried, pan fydd cyllid yn caniatáu, sefydlu cronfa twristiaeth ddiwylliannol benodol, gyda grantiau i’w dyfarnu i’r syniadau gorau sy’n sicrhau’r canlyniadau gorau i ymwelwyr.

Uchod: Tŵr cloc coffa Scott, adeilad rhestredig ym Mharc y Rhath, Caerdydd.

**Thema E —** Gwella rhai o weithgareddau amrywiol Cadw i gynorthwyo ei bwrpas craidd, gan gynnwys adeiladu ar waith masnachol Cadw fel atyniad ymwelwyr sylweddol a menter fasnachol, a'i rôl fel ceidwad a hyrwyddwr treftadaeth hanesyddol Cymru.

### 5.21 Argymhelliad 21

Dylai UDG Cadw gynnal adolygiad o'r gwraidd i'r bôn cyflawn, sylfaenol a radical o'i holl weithgareddau masnachol, gan gynnwys ei sgiliau staff, lefelau adnoddau staff a'i berthynas â phartneriaid allanol, yng nghyd-destun yr argymhellion yn yr adolygiad llywodraethu hwn, a ddylai ganiatáu mwy o hyblygrwydd i Cadw.

Mae'n bwysig pwysleisio pwrpas Cadw, a amlinellir yn ei adroddiad blynyddol (Atodiad 6.2, tudalen 5). Nid yw Cadw yn bodoli i fod yn weithrediad masnachol ac felly mae'n rhaid i unrhyw weithgaredd masnachol wella a chefnogi ei ddiben craidd.

Dylai gweithgareddau masnachol Cadw gofleidio Cynllun Gweithredu Economaidd Llywodraeth Cymru, yn enwedig ei ffocws ar economi sylfaenol Cymru. Mae Cadw mewn sefyllfa dda i hyrwyddo a chefnogi cyrchu a gwerthu bwydydd a chynnyrch o Gymru, a phob math o gynnyrch o Gymru.

Yng ngoleuni'r rhyddid newydd posibl hwn, dylai Cadw adolygu a/neu ailddatgan ei strategaeth fasnachol tymor byr, canol a hirdymor i sicrhau bod ei botensial ar gyfer twf pellach ei fusnes ymwelwyr a'r holl ffrydiau incwm eraill yn cael ei ddatblygu'n llawn.

Dylid creu 'Pennaeth Profiad Ymwelwyr a Datblygu Busnes' o fewn strwythur UDG Cadw, a dylai'r person hwn arwain yr adolygiad masnachol. Dylid cydnabod bod gan y rôl hon statws cyfartal â phenaethiaid canghennau rheoleiddio a chadwraeth Cadw.

### 5.22 Argymhelliad 22

